

1. Cyflwyniad

Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru) yn ddiolchgar am y cyfle i ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar ei ymchwiliad byr i oblygiadau Brexit.

Mae hyn yn berthnasol iawn i CDCCymru o ystyried y twf yn ein teithiau i Ewrop dros y ddwy flynedd ddiwethaf, y nifer o wladolion yr UE sy'n rhan o'n grŵp perfformio, a dyheadau'r Cwmni i greu gwaith mewn cydweithrediad â Phartneriaid yn Ewrop.

Mae CDCCymru yn aelod o 'One Dance UK', corff y diwydiant ar gyfer dawns, y mae ei adroddiad ar effaith Brexit ar y sector dawns 'Movement Beyond Borders – The UK Dance Sector Outlook on Brexit', yn grynodedb rhagorol o'r materion allweddol. Gellir edrych arno yma:

<https://www.onedanceuk.org/wp-content/uploads/2018/08/Movement-Beyond-Borders-Brexit-report-Aug18-180820.pdf>

2. CDCCymru – ein nodau

Cwmni dawns gyfoes o fri rhyngwladol yw CDCCymru wedi ei leoli yng Nghaerdydd, sy'n creu dawnsfeydd ac yn teithio ledled Cymru, y DU yn ehangach a dramor. Mae'n comisiynu coreograffwyr o bob cwr o'r byd i greu gwaith yng Nghymru. Mae oddeutu dau draean o'i deithiau yn cael eu cynnal yng Nghymru, ar draws lleoliadau bach a chanolig eu maint, gan alluogi cynulleidfaoedd i weld dawns o safon uchel. Mae gweddill y teithiau yn digwydd mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol, gydag oddeutu 15–20% o'r dyddiadau teithio wedi eu trefnu ar gyfer Ewrop.

Ein ffocws ar hyn o bryd yw datblygu cynulleidfaoedd newydd ac ehangu'r ystod o gynulleidfaoedd sy'n profi ac yn mwynhau dawns yng Nghymru, a thu hwnt. I

gyflawni hyn, rydym yn amrywio'r model creu a theithio i gyrraedd ystod ehangach o leoliadau a chynulleidfaoedd gyda mathau gwahanol o ddawns.

Fodd bynnag, dim ond rhan o'n cynnig yw perfformio dawns. Rydym hefyd yn darparu ystod o gyfleoedd i gymryd rhan mewn dawns, i gynyddu lles, gallu i ddysgu, hunanhyder a ffordd o fynegi pobl.

3. CDCCymru – Gweithlu

Ar hyn o bryd mae 50% o ddawnsywyr Cwmni CDCCymru yn wladolion yr UE (o'r tu allan i'r DU). Mae'r cymysgedd o ddawnsywyr Prydeinig ac Ewropeaidd yn hanfodol i gynnal yr ystod o sgiliau y mae'r Cwmni eu hangen i gyflawni ei waith. Mae yna brinder hyfforddiant dawns yng Nghymru o'r math sy'n ofynnol i ddatblygu dawnsywyr ar gyfer cwmnïau fel CDCCymru, ac mae yna nifer cyfyngedig o ysgolion ym Mhrydain sy'n cynnig hyfforddiant o'r safon sy'n ofynnol. Yn draddodiadol, mae dawnsywyr gorau Cymru a Phrydain wedi hyfforddi dramor.

Byddai cyfyngu ar ryddid pobl a nwyddau i symud yn cyfyngu ar allu cwmnïau dawns i deithio, cynhyrchu incwm a denu talent. Byddai cwmnïau llai, artistiaid ac unigolion sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid yn Ewrop hefyd yn dioddef.

Byddai'r Cwmni yn argymhell Llywodraeth Cymru i gasglu data ar symudiad gweithwyr yn y sector celfyddydol o'r UE yng Nghymru. Byddai fisa amryfal, arhosiad hir, cyflym a rhwydd, rhad ac am ddim neu gost isel, neu drwydded weithio debyg ar gyfer gweithwyr creadigol a diwylliannol yn sicrhau y gallai gweithiwr creadigol barhau i symud yn rhydd. Gallai hyn fod yn seiliedig ar y model gwyliau heb drwydded.

Byddem hefyd yn argymhell buddsoddi mewn addysg dawns yn awr i feithrin cenedlaethau'r dyfodol o ddawnsywyr Cymru i allu perfformio ar y lefel uchaf. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant galwedigaethol ac addysg bellach/uwch, ond hefyd ymgorffori a chydabod gwerth pynciau creadigol ac artistig yn ysgolion Cymru.

4. Teithio

Mae incwm o deithio yn hollbwysig i CDCCymru, ac i nifer o gwmnïau dawns a chelfyddydol yng Nghymru. Mae gan y genedl broffil rhyngwladol sydd wedi bod o fudd mawr i frand ac enw da Cymru, yn ogystal â helpu i amrywio incwm.

Mae CDCCymru yn ennill rhwng £60,000 a £100,000 y flwyddyn mewn ffioedd teithio o fewn yr UE. Mae'r incwm hwn a buddion brand mewn perygl os na allwn barhau i deithio'n rhydd. Mae cwmnïau ar hyn o bryd yn gallu darparu Tystysgrifau o Breswiliad Ariannol i wledydd yr UE, gan osgoi unrhyw drethiant dwbl neu ddal treth yn ôl.

Mae teithio'n Ewrop yn fwy atyniadol a phroffidiol i gwmnïau Cymru oherwydd mae modd cludo setiau a gwisgoedd ar y ffordd, gan gadw costau morgludiant yn isel, ac nid yw dogfennau tollau eraill neu ardoll yn angenrheidiol. Byddai'r angen am weithdrefnau clirio tollau'n arafu'r broses a chynyddu costau teithio yn Ewrop a fyddai mwy na thebyg yn lleihau'r nifer o deithiau, hyfywedd ariannol hynny a'r incwm a enillir.

5. Cydweithrediadau a mynediad at gyllid yr UE

Mae CDCCymru yn sefydlu cysylltiadau ag ystod eang o asiantaethau, lleoliadau ac artistiaid wedi eu lleoli'n Ewrop, y mae'n cydweithio â nhw. Un o'r ffyrdd allweddol y mae cwmnïau fel CDCCymru wedi llwyddo i greu a datblygu cysylltiadau yw drwy gynlluniau a ariennir gan Ewrop, megis Creative Europe, Horizons 2020, Erasmus+, Tandem a llawer mwy. Mae'r cynlluniau hyn wedi galluogi sector celfyddydol a diwylliannol Cymru i greu prosiectau artistig nodedig ac uchelgeisiol, ymgysylltu â'r byd ehangach, allforio a chynhyrchu incwm.

Gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru yn parhau i gael eu cynnwys mewn cynlluniau mawr a ariennir gan yr UE, gan gynnwys dylanwadu ar ddatblygiad ac esblygiad rhaglenni o'r fath yn y dyfodol. Gan ystyried natur ddatganoledig materion diwylliannol ac addysgol, gallai Llywodraeth Cymru wneud hyn, hyd yn oed os nad yw Llywodraeth y DU yn dymuno parhau i gymryd rhan lawn mewn rhaglenni o'r fath.